Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Cyngor Sir y Fflint
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
CH5 3FF

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru

<table>
<tr><td>Enw’r bartneriaeth</td><td>Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru</td></tr>
<tr><td>Awdurdodau lleol sy’n gysylltiedig â’r bartneriaeth a phartneriaid cyflwyno allweddol</td><td>Caiff Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru ei harwain a’i chyd-gadeirio gan ddau awdurdod lleol, sef Wrecsam a Sir y Fflint.<br>Y prif bartneriaid yw:<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>• Cyngor Sir y Fflint<br>• Coleg Cambria<br>• Addysg Oedolion Cymru</td></tr>
<tr><td>Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf</td><td>Nac oes</td></tr>
<tr><td>Nifer y dysgwyr adeg yr arolygiad</td><td>Yn ystod yr arolygiad, roedd 260 o ddysgwyr wedi eu cofrestru yn narpariaeth a ariennir gan Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned y bartneriaeth.</td></tr>
<tr><td>Nifer y dysgwyr yn y flwyddyn academaidd lawn flaenorol</td><td>Yn ystod 2024-2025, mae data’r bartneriaeth ei hun yn dangos bod niferoedd canlynol y dysgwyr unigryw wedi eu cofrestru:
<table>
<tr><th>Darparwr</th><th>2024 - 2025</th></tr>
<tr><td>Groundwork (Wrecsam)</td><td>1376</td></tr>
<tr><td>Groundwork (Sir y Fflint)</td><td>549</td></tr>
<tr><td>Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy</td><td>80</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Gwella: 46<br>Coleg Cambria (ASO): 910<br>Coleg Cambria (SSIE): 852<br>Addysg Oedolion Cymru: 568<br>The Little Learning Company: 16<br>Cyfanswm: **4397** |
| Manylion am raglenni'r bartneriaeth, o ran cyrsiau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru (SSIE a medrau sylfaenol) ac ystod o gyrsiau eraill (hamdden / adfer costau) | Mae'r ddau awdurdod lleol yn contractio eu darpariaeth a ariennir gan y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned i Groundworks Gogledd Cymru, sef sefydliad elusennol sy'n cyflwyno ystod o raglenni medrau hanfodol, lles a dysgu teuluol achrededig ac anachrededig ar gyfer y bartneriaeth. Mae nifer fach o gontractwyr ac is-gontractwyr cymeradwy yn cyflwyno darpariaeth arbenigol, hefyd.<br><br>Mae Coleg Cambria yn cyflwyno medrau hanfodol, darpariaeth llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer oedolion (ASO), a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE), a ariennir trwy ei ddyraniad cyllid addysg bellach ran-amser neu amser llawn.<br><br>Mae Addysg Oedolion Cymru yn cyflwyno ystod o ddarpariaeth iechyd a lles, medrau hanfodol a chyflogadwyedd a ariennir trwy ei ddyraniad cyllid addysg bellach ran-amser. |
| Ynglŷn â'r dysgwyr ar gyrsiau'r bartneriaeth | Yn 2024-2025, roedd 75% o ddysgwyr a ariennir gan y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned y bartneriaeth yn fenywod. Disgrifiodd 4% eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl, 18% yn siaradwyr Cymraeg ond ddim yn rhugl, a 78% ddim yn |

| | |
|---|---|
| | siaradwyr Cymraeg. Roedd tua 24% o ddysgwyr y bartneriaeth yn 65 oed neu'n hŷn. |
| Ynglŷn â'r boblogaeth yn ardal y bartneriaeth | Mae Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2021 yn dweud bod poblogaeth Wrecsam tua 135,100 a Sir y Fflint tua 155,000. Yn y ddwy sir, roedd benywod yn cynnwys ychydig dros hanner o'r boblogaeth, sef 51%.<br><br>Yn Wrecsam, roedd tua 20% o'r boblogaeth yn 65 oed ac yn hŷn, a thua 21% o'r boblogaeth o Sir y Fflint.<br><br>Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 yn dangos cyfran yr ardaloedd bach (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) ym mhob awdurdod lleol sydd yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd 12% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Wrecsam yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (yr wythfed ardal lleiaf difreintiedig yng Nghymru) ac 11% ar gyfer Sir y Fflint (y chweched ardal lleiaf difreintiedig). Mae hyn yn dangos bod gan y ddau awdurdod lleol ardaloedd o amddifadedd ac anfantais ond roedd ganddynt lai na mwyafrif yr awdurdodau lleol yng Nghymru.<br><br>Adroddodd cyfrifiad 2021 mai canran y siaradwyr Cymraeg yn Wrecsam oedd 12.2%, ac 11.6% yn Sir y Fflint, o gymharu â ffigur Cymru gyfan, sef 17.8%. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 31/05/2022 |

## Crynodeb

Ceir partneriaeth gref, aeddfed ac effeithiol, gyda chefnogaeth gadarn a theg gan brif swyddogion addysg awdurdodau lleol Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r darparwyr a'r partneriaid nad ydynt yn cyflwyno sy'n creu'r bartneriaeth yn ffurfio rhwydwaith ymrwymedig sy'n cyfrannu at waith a chyfeiriad strategol y bartneriaeth. Mae perthnasoedd rhwng y partneriaid wedi'u diffinio'n glir, yn gadarn, yn dryloyw ac yn gydweithredol.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ymagwedd strategol at gynllunio'i darpariaeth, sy'n ymatebol i flaenoriaethau strategol rhanbarthol. Ceir ystod werthfawr o ddarpariaeth sy'n helpu oedolion i ailymgysylltu â dysgu, datblygu medrau digidol, llythrennedd a rhifedd, dysgu gyda'u plant mewn cyd-destunau dysgu teuluol neu ddysgu Saesneg a hwythau'n siaradwyr ieithoedd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol, gan gymhwyso medrau newydd yn effeithiol mewn cyd-destunau ymarferol. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau Saesneg, digidol, llythrennedd neu rifedd sy'n briodol i'w lefel. Mae ansawdd yr addysgu ar draws y bartneriaeth yn gyson gryf. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn dangos arbenigedd pwnc cadarn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynllunio ac yn strwythuro dysgu'n effeithiol, gan adeiladu'n ofalus ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod eisoes.

Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo'n gryf i les a thwf personol dysgwyr. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cynnig cwricwlwm cynhwysol a chymunedol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau yn addysgol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylcheddau dysgu ac yn cael cefnogaeth dda gan eu tiwtoriaid. Mae lleoliadau'n gwbl hygyrch yn y gymuned, ar y cyfan, ac yn groesawgar a chyfeillgar.

Mae'r bartneriaeth yn gwybod beth yw ei chryfderau a'i gwendidau a beth mae angen iddi ei wneud i wella. Mae hyn yn cynnwys gwella'r amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u dysgu a'u hannog i wneud hynny, a gwerthuso a gwella pa mor dda mae dysgwyr yn symud ymlaen o ddarpariaeth sy'n gwneud iddynt ailymgysylltu â dysgu ymlaen i ddilyn darpariaeth alwedigaethol neu fedrau ar lefelau uwch.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella, sef:

A1 Gwerthuso effaith darpariaeth y bartneriaeth ar gynnydd dysgwyr

A2 Gwella cynnydd dysgwyr o ddarpariaeth gymunedol i ddarpariaeth alwedigaethol neu ddarpariaeth medrau ar lefelau uwch

A3 Annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg mewn agweddau cymdeithasol a ffurfiol ar eu dysgu, a chynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ymgymryd â'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

## Beth sy'n digwydd nesaf

Nid yw'r bartneriaeth mewn categori gweithgarwch dilynol, a bydd yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Byddwn yn ystyried cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn ein hymweliadau arolygwyr cyswllt rheolaidd.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol ac yn cymhwyso medrau newydd yn effeithiol mewn cyd-destunau ymarferol. Ar draws y ddarpariaeth, mae dysgwyr yn magu hyder a chymhwysedd wrth iddynt ddatblygu medrau sy'n benodol i bwnc sy'n berthnasol i fywyd bob dydd. Er enghraifft, mewn cyrsiau ymarferol fel gwnïo a choginio, mae dysgwyr yn caffael technegau cynyddol uwch ac yn dangos annibyniaeth gynyddol wrth gynllunio, cyllidebu a chwblhau tasgau. Mae dysgwyr yn aml yn disgrifio'r modd y mae cyfranogiad wedi gwella'u hyder a'u parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ei ddefnyddio'n hyderus i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Er enghraifft, mae dysgwyr yn sesiynau'r celfyddydau mynegiannol yn galw cynnwys ymarfer blaenorol i gof yn llwyddiannus, tra bod dysgwyr sy'n astudio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn cyfrif i 30 ac yn disgrifio lliwiau o'u cof. Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn ailedrych ar ddysgu cynharach yn systematig ar ddechrau sesiynau. O ganlyniad, mae dysgwyr yn atgyfnerthu eu medrau ac yn gallu eu cymhwyso mewn ffyrdd newydd a chynyddol gymhleth.

Mae llawer o ddysgwyr yn rhoi disgrifiad clir o beth maent yn gweithio arno ar hyn o bryd ac yn nodi eu camau nesaf. Maent yn dangos uchelgais i symud ymlaen i ddysgu pellach, cyrsiau achrededig neu gyflogaeth, yn cynnwys mewn proffesiynau fel bydwreigiaeth ac addysgu.

Mae ansawdd yr addysgu ar draws y bartneriaeth yn gyson gryf. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn meddu ar wybodaeth bwnc gadarn ac yn cynllunio dysgu'n ofalus, gan adeiladu'n systematig ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod eisoes. Mae tiwtoriaid yn defnyddio enghreifftiau perthnasol a gweithgareddau ymarferol i helpu dysgwyr i ddeall cysyniadau newydd. Mewn dysgu teuluol, mae sesiynau strwythuredig yn cynorthwyo oedolion a phlant i ddysgu gyda'i gilydd yn effeithiol. Mewn darpariaeth llythrennedd, mae tiwtoriaid yn cynllunio gweithgareddau sy'n cryfhau medrau academaidd a galwedigaethol, fel ei gilydd, yn cynnwys tasgau ysgrifennu perswadiol a datrys problemau. Mae'r bartneriaeth hefyd yn gweithio'n effeithiol gyda darparwyr arbenigol i ymestyn ystod y cyrsiau sydd ar gael, er enghraifft mewn BSL a deallusrwydd artiffisial (AI).

### Ciplun: Ennyn ymgysylltiad teuluoedd ym myd AI

Mae sesiwn dysgu teuluol hynod effeithiol ar AI, a gyflwynwyd gan ddarparwr arbenigol, yn esbonio sut mae'r bartneriaeth yn ennyn ymgysylltiad rhieni a phlant mewn dysgu sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Daeth y darparwr ag arbenigedd diwydiannol dilys a mewnwelediad addysgol clir, mewn sesiwn strwythuredig a oedd â'r nod o dynnu'r dirgelwch o AI. Yn y sesiwn, defnyddiwyd gliniaduron, fideos a thasgau rhyngweithiol, gyda hiwmor ac archwilio uniongyrchol gan wneud syniadau cymhleth yn hygyrch. Bu teuluoedd yn dysgu beth yw AI, yn archwilio'r defnydd a wneir ohono mewn gofal iechyd, cynhyrchu bwyd a bywyd bob dydd, ac yn rhaglennu robot gyda'i gilydd. Llwyddodd yr awyrgylch bywiog a chynhwysol a'r holi a oedd wedi'i dargedu'n ofalus i gynnal ymgysylltiad rhieni a phlant, gan ddangos sut gall mewnbwn arbenigol gyflwyno dysgu teuluol arloesol sy'n cefnogi parodrwydd digidol.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos medrau llythrennedd a rhifedd gwell sy'n briodol i'w lefel. Mae dysgwyr ar gyrsiau llythrennedd yn ymchwilio ac yn creu dadleuon rhesymegol, tra bod dysgwyr rhifedd yn cymhwyso dysgu blaenorol yn hyderus i broblemau newydd. Fodd bynnag, ar draws y ddarpariaeth ehangach, nid yw ychydig o diwtoriaid yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i atgyfnerthu medrau llythrennedd neu rifedd.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu cymhwysedd digidol, yn aml o fannau cychwyn sylfaenol iawn. Mae llawer ohonynt yn dysgu defnyddio ffonau clyfar, cyfrifiaduron llechen a gliniaduron yn hyderus, tra bod dysgwyr eraill yn datblygu dealltwriaeth ragarweiniol o AI. Mae tiwtoriaid SSIE yn defnyddio offer digidol yn effeithiol i strwythuro gwersi a monitro cynnydd unigol. Mae dysgwyr yn elwa ar weithgareddau digidol wedi'u cynllunio'n dda sy'n eu helpu i ddatblygu medrau cynyddol gymhleth.

Mae tiwtoriaid yn creu amgylcheddau dysgu gwresog, cynhwysol a chefnogol. Maent yn addasu cyflymdra a chynnwys y sesiynau yn effeithiol, gan ddefnyddio profiadau, diddordebau a dyheadau dysgwyr. Mae tiwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn defnyddio sicrwydd, her a hiwmor yn briodol i gynnal ymgysylltiad. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi ymagwedd bwyllog, empathig ac anfarnol tiwtoriaid, ac yn ymateb â lefelau uchel o barch tuag at staff a chyfoedion. Mae'r amgylchedd dysgu dilynol yn un o gydweithredu a mwynhad, lle mae dysgwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel i wneud camgymeriadau, gofyn cwestiynau, ac maent yn magu hyder yn eu medrau a'u hunan-gred.

### Ciplun: Medrau Byw yn Annibynnol – Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol yn elwa'n fawr ar sesiynau wythnosol yn y celfyddydau mynegiannol. Mae tiwtoriaid medrus yn eu cynorthwyo i ysgrifennu barddoniaeth, creu cerddoriaeth, canu, actio a datblygu medrau siarad a chyflwyno. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn paratoi sioe diwedd cwrs ar gyfer ffrindiau a theulu, yn aml trwy fabwysiadu persona hoff sêr fel Taylor Swift neu Adele i ateb cwestiynau a pherfformio caneuon. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, gan gynnig anogaeth ac adborth adeiladol. Wrth iddynt fagu hyder, mae dysgwyr yn cymhwyso'r medrau hyn mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, mae llawer ohonynt bellach yn dechrau sgyrsiau ag ymwelwyr, ac mae ychydig ohonynt yn teithio'n hyderus i'r lleoliad ac oddi yno ar fws yn annibynnol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn mewn sesiynau ac yn mwynhau eu dysgu. Maent yn cynnal ffocws a brwdfrydedd ac yn dyfalbarhau pan fyddant yn cael eu herio. Mae dysgwyr yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ac yn ei ddefnyddio'n adeiladol i wella'u gwaith. Mae ymddygiad yn gyson barchus a chydweithredol, ac mae dysgwyr yn gweithio'n gynhyrchiol yn annibynnol ac mewn grwpiau. Er enghraifft, mae dysgwyr BSL yn ymarfer yn bwrpasol mewn parau, tra bod dysgwyr SSIE yn cynorthwyo'i gilydd trwy gyfieithu i'w cyfoedion.

Mae dysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision ehangach eu dysgu. Mae cyfranogwyr mewn cyrsiau lles a chyrsiau ymarferol yn dweud eu bod yn teimlo'n llai ynysig yn gymdeithasol a bod ganddynt hunanhyder gwell. Mae rhieni a gofalwyr sy'n cymryd rhan mewn dysgu teuluol yn datblygu dealltwriaeth well o sut mae ysgolion yn addysgu medrau llythrennedd a digidol, ac ar yr un pryd, yn gwella'u medrau eu hunain ac yn magu hyder wrth gefnogi dysgu eu plant gartref. Dywed arweinwyr ysgolion fod yr ymgysylltiad hwn yn cryfhau perthnasoedd rhwng teuluoedd ac ysgolion, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at gydlyniant cymunedol.

Mae tiwtoriaid yn gwahaniaethu dysgu'n effeithiol i ddiwallu ystod eang o anghenion, yn cynnwys anghenion dysgwyr â gofynion cymorth ychwanegol. Maent yn addasu holi, grwpio a gweithgareddau i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn gallu cymryd rhan a gwneud cynnydd. Mewn dosbarthiadau SSIE, mae trefniadau hyblyg, fel amseroedd cychwyn wedi'u haddasu, yn cefnogi dysgwyr â chyfrifoldebau gofalu ac yn helpu sicrhau mynediad teg.

Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn defnyddio holi'n dda i hyrwyddo dysgu a symbylu'r meddwl. Maent yn sicrhau cydbwysedd rhwng cwestiynau agored a chwestiynau caeedig yn briodol, ac yn targedu cwestiynau i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn gallu dangos eu dealltwriaeth. Defnyddir cyfleoedd ar gyfer adborth cymheiriaid yn effeithiol mewn rhai meysydd, gan gefnogi myfyrio a hunanwerthuso.

Mewn nifer fach o sesiynau, mae tiwtoriaid yn defnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn effeithiol i gyfoethogi dysgu a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, ar draws y bartneriaeth, mae cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau Cymraeg neu ymgysylltu'n ddwyieithog yn gyfyngedig. Mae cydweithio diweddar â Menter Iaith wedi arwain at lwyddiant cynnar mewn cynnig cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn parhau i fod yn isel, ar y cyfan.

Yn ôl y data diweddaraf ar ddeilliannau dysgwyr a gyhoeddwyd yn genedlaethol, mae cyfraddau dysgwyr o ran cwblhau'n llwyddiannus yn gryf ac yn rhagori ar gymaryddion cenedlaethol ar draws y rhan fwyaf o feysydd pwnc a lefelau.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r bartneriaeth:

- Annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg mewn agweddau cymdeithasol a ffurfiol ar eu dysgu
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Sicrhau bod tiwtoriaid yn nodi ac yn defnyddio cyfleoedd i atgyfnerthu llythrennedd neu rifedd trwy dasgau sy'n digwydd yn naturiol

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo'n gryf i les a thwf personol dysgwyr. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cynnig cwricwlwm cynhwysol a chymunedol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau yn addysgol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda gan eu tiwtoriaid. Mae lleoliadau dysgu wedi'u lleoli'n dda, yn aml mewn lleoliadau cymunedol, ac maent yn groesawgar a chyfeillgar. Mae dysgwyr yn gefnogol i'w gilydd ac yn croesawu dysgwyr newydd i grwpiau yn agored.

Mae dosbarthiadau medrau digidol yn hyrwyddo lles dysgwyr. Mae oedolion yn dysgu sut i ddefnyddio'u ffonau symudol, eu gliniaduron a'u cyfrifiaduron llechen i ymestyn eu bywydau. Yn benodol, mae dysgwyr hŷn yn datblygu medrau digidol sy'n eu galluogi i barhau'n gysylltiedig ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu gadael ar ôl gan dechnoleg newydd. Mae ymwybyddiaeth o aros yn ddiogel ar-lein, sgamiau a defnydd synhwyrol o AI i gyd yn helpu'r dysgwyr hyn i deimlo'n fwy diogel wrth ddefnyddio technoleg ddigidol.

Mae tiwtoriaid yn addasu cynnwys eu sesiynau yn fuddiol, i ymateb i geisiadau gan ddysgwyr. Er enghraifft, mae un tiwtor yn cyflwyno dysgwyr hŷn i amrywiaeth o offer digidol fel taenlenni i gefnogi gwaith gwirfoddol neu ddysgu sut i ddefnyddio ap cyfieithu iaith i ymestyn dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg.

Mae dysgwyr SSIE yn magu hunanhyder ac yn dysgu ymgynefinoo mewn lleoedd newydd a chyfarfod â phobl newydd. Mae digwyddiadau diwylliannol hynod lwyddiannus a boddhaus fel digwyddiad a gynhelir gan Goleg Cambria, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu dysgwyr ar draws y bartneriaeth i ddatblygu cymunedau cynhwysol. Mae'r bartneriaeth yn ymestyn medrau ymarferol dysgwyr, fel dysgu gyrru, trwy gynnig cyrsiau i gynorthwyo dysgwyr wrth gymryd y prawf theori gyrru.

Mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr yn dda mewn dosbarthiadau cymunedol. Maent yn ymatebol, yn gefnogol ac yn ofalgar. Maent yn cyfeirio dysgwyr at gymorth arbenigol pan fydd angen. Mae dysgwyr yn canmol tiwtoriaid yn gyson am eu hempathi, eu didwylledd a'u hyblygrwydd, ac yn disgrifio'r modd y mae mynychu dosbarth wedi eu helpu i oresgyn anawsterau lluosog yn eu bywydau, cefnogi eu plant yn well, gwneud ffrindiau, a goresgyn unigrwydd, gorbryder ac iselder.

Mae'r bartneriaeth yn cynllunio gweithgareddau gyda chost i ddysgwyr mewn cof, sy'n lleihau rhwystrau rhag cymryd rhan. Mae hyn yn galluogi dysgwyr a'u plant i fynychu dosbarthiadau na fyddent yn gallu eu fforddio fel arall, fel celf a chrefft a medrau coginio. Caiff dysgwyr hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau fforddiadwy y gallant eu gwneud gyda'u teuluoedd yn ystod y gwyliau ysgol.

Yn gyffredinol, mae'r bartneriaeth yn rhoi gwybodaeth dda i ddysgwyr am lwybrau dilyniant trwy weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r rhaglen Cymunedau am Waith. Mae'r bartneriaeth yn hysbysebu dosbarthiadau dysgu cymunedol ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol a thrwy daflenni mewn mannau cyhoeddus fel meddygfeydd. Dywed dysgwyr fod dosbarthiadau'n eu helpu i wella'u hiechyd, eu hiechyd meddwl a'u lles cyffredinol. Daeth ychydig o ddysgwyr i wybod am eu dosbarth trwy ddefnydd eu meddyg teulu, eu gweithiwr cymdeithasol neu'u tîm cymorth iechyd meddwl o bresgripsiynu cymdeithasol.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn dweud eu bod yn gwybod sut i godi pryder ynghylch diogelu, os bydd angen. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd buddiol ac ymddiriedus sydd ganddynt â'u tiwtoriaid. Er enghraifft, mynegodd dysgwyr sut mae'r perthnasoedd hyn wedi rhoi'r hyder iddynt ddatgelu anawsterau y gallent fod yn eu hwynebu.

Mae trefniadau'r bartneriaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Ciplun: Dysgu teuluol - "Nid yw'n edrych fel dysgu, ond dyna beth ydyw" [dysgwr mewn grŵp ffocws]

Mewn sesiynau dysgu teuluol, mae oedolion sy'n ddysgwyr yn dechrau goresgyn y rhwystrau rhag addysg ffurfiol trwy eu profiadau blaenorol. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu i amgylchedd yr ysgol ac yn ffurfio perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol â staff addysgu. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion yn nodi rhieni a fyddai'n elwa ar fynychu sesiynau, ond yn gyffredinol, mae croeso i unrhyw rieni, neiniau a theidiau, neu ofalwyr, ymuno yn y sesiynau.

Mae oedolion sy'n ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gwahanol fathau o ddarpariaeth dysgu teuluol o fewn ysgolion. Mewn rhai achosion, mae rhieni'n dysgu sut i ddarllen yn greadigol gyda'u plant ac yn defnyddio llyfrau i symbylu eu dychymyg. Wedyn, mae eu plant yn ymuno â nhw er mwyn iddynt allu ymarfer eu medrau newydd mewn gweithgareddau ar y cyd. Mewn sesiynau eraill, mae rhieni a phlant yn gweithio gyda'i gilydd i wneud prydau bwyd syml a rhad yn y ffrïwr aer gyda'i gilydd. Maent yn magu hyder ac yn dysgu annog eu plant i flasu bwydydd newydd, fel madarch a phupur.

Mae oedolion sy'n ddysgwyr, gan gynnwys y rhai â rhwystrau iaith, yn teimlo'n fwy cysylltiedig, yn gwneud ffrindiau newydd ac yn gwella'u medrau cyfathrebu. Maent hefyd yn cymryd mwy o ran ym mywyd yr ysgol, ac mae ychydig ohonynt yn mynd ymlaen i gyfrannu trwy wrando ar blant yn darllen, ymuno â chymdeithas rieni'r ysgol neu'n astudio ymhellach ac yn hyfforddi i fod yn gynorthwywyr addysgu.

### Arwain a gwella

Mae hon yn bartneriaeth gref ac aeddfed, gyda chefnogaeth gadarn a theg gan brif swyddogion addysg awdurdodau lleol Wrecsam a Sir y Fflint, fel ei gilydd.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio model comisiynu i gontractio cyflwyno'i darpariaeth a ariennir gan y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Mae hwn yn ddull unigryw yng Nghymru. Mae'r sefydliad elusennol, Groundwork Gogledd Cymru, yn darparu'r rhan fwyaf o'r dysgu a ariennir gan y Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned, ac mae contractwyr llai eraill yn ychwanegu capasiti a mewnbwn arbenigol, lle mae angen.

Coleg Cambria ac Addysg Oedolion Cymru yw'r ddau brif bartner cyflwyno arall, sy'n cynnig darpariaeth ar gyfer oedolion a ariennir trwy eu dyraniad grant addysg bellach. Mae'r rhain, a phartneriaid eraill nad ydynt yn cyflwyno, yn ffurfio rhwydwaith ymrwymedig sy'n cyfrannu at waith a chyfeiriad strategol y bartneriaeth trwy ystod o grwpiau rheoli, cwricwlwm ac ansawdd effeithiol. Mae perthnasoedd rhwng y partneriaid wedi'u diffinio'n glir, yn gadarn, yn dryloyw ac yn gydweithredol.

Mae'r prif rheolwr gweithredol yn y bartneriaeth, wedi'i gefnogi gan uwch swyddogion eraill yn y ddau awdurdod, yn darparu arweinyddiaeth glir ac effeithiol i'r bartneriaeth, a chyswllt â phartneriaid cyflwyno'r bartneriaeth.

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ymagwedd strategol at gynllunio'i darpariaeth, sy'n ymatebol i flaenoriaethau strategol rhanbarthol. Mae'r bartneriaeth wedi diffinio'n glir pa ddarpariaeth a gynigir gan ba bartneriaid. Mae'r ddarpariaeth ddilynol yn rhoi dewis ac ystod werthfawr o lwybrau dilyniant i oedolion sy'n ddysgwyr a darpar ddysgwyr.

Mae partneriaid cyflwyno wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau nad yw darpariaeth yn cael ei dyblygu'n ddi-fudd ar draws yr ardal. Mae darpariaeth a ariennir gan Grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned y bartneriaeth, a gyflwynir gan ei phartneriaid sydd dan gontract, yn amrywiol, wedi'i lleoli'n dda mewn lleoliadau cymunedol hygyrch ac yn cynnig ystod ddeniadol o gyrsiau. Mae'r cynnig yn anachrededig neu ar lefel mynediad, i raddau helaeth, a'i fwriad yw gweithredu fel sylfaen, ac ymgysylltu â dysgwyr a darpar ddysgwyr i gymryd y camau cyntaf yn ôl at addysg. Mae'r bartneriaeth yn ymateb yn dda i geisiadau lleol ac yn teilwra'i darpariaeth i'w bodloni. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ystod o gyrsiau defnyddiol sydd wedi'u hanelu at gefnogi oedolion i fyw bywydau annibynnol a iachach fel cyrsiau ar ddefnyddio ffôn clyfar, cyllidebu neu ddefnyddio popty araf a ffrïwr aer. Ceir cyrsiau buddiol hefyd i gynorthwyo dysgwyr i wella'u rhagolygon swyddi, fel medrau cyfweld ac ysgrifennu CV. Ceir elfen sylweddol o ddysgu teuluol, a gyflwynir mewn ysgolion, sy'n ffordd effeithiol iawn i oedolion brofi addysg o'r newydd, datblygu eu medrau eu hunain a chynorthwyo'u plant. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda gyda chysylltiadau dysgu teuluol ysgolion i deilwra'r cynnig i anghenion cymunedau'r ysgolion.

Mae Coleg Cambria yn cyflwyno bron yr holl ddarpariaeth SSIE a chyrsiau achrededig lefel 1 a 2 sy'n gwella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol oedolion sy'n ddysgwyr. Mae Addysg Oedolion Cymru hefyd yn cynnig ystod ddefnyddiol o ddarpariaeth ddigidol, cyflogadwyedd, iechyd a lles, a darpariaeth SSIE hyblyg ar-lein.

Mae'r bartneriaeth yn adnabod ei chryfderau a'i meysydd i'w gwella ac yn cynllunio'n briodol i fynd i'r afael â nhw. Mae'n strwythuro'i phrosesau hunanwerthuso ar lefelau strategol a gweithredol ac mae ganddi gynrychiolaeth eang ar draws ei grwpiau ansawdd a chwricwlwm. Mae'r dull cynhwysol hwn yn cynnwys pob partner allweddol ac yn llywio gwelliant ansawdd a chynllunio darpariaeth yn fuddiol.

### Ciplun ar themâu â ffocws mewn hunanwerthuso

Mae'r bartneriaeth yn dewis themâu ar gyfer myfyrio â ffocws trwy ei gweithgorau hunanwerthuso a gweithio mewn partneriaeth. Mae themâu wedi cynnwys tlodi, SSIE a llythrennedd. Mae'r broses yn annog staff ar draws y bartneriaeth i fyfyrio ar y thema ac ystyried sut gellir gwella'r ddarpariaeth neu arfer addysgu. Er enghraifft, amlygodd y ffocws thematig ar dlodi bryderon ynglŷn â lleoliad darpariaeth ac o ran dysgwyr yn gallu cael mynediad i rai lleoliadau. O ganlyniad, penderfynodd y bartneriaeth weithio gyda grwpiau o feintiau llai yn y lleoliad hwnnw, gan alluogi dysgwyr i barhau i gael mynediad at addysg. Mae ffocws presennol ar lythrennedd a sut mae'r bartneriaeth yn mynd i'r afael â chynyddu cyfran y dysgwyr sydd â medrau darllen gwael.

Mae'r bartneriaeth yn datblygu ei chapasiti i reoli data dysgwyr ac wedi buddsoddi mewn system gwybodaeth reoli newydd a rôl dadansoddwr data. Mae'n datblygu offer dadansoddi data a fydd yn ei galluogi i werthuso pa mor dda mae dysgwyr yn symud trwy lefelau'r ddarpariaeth ac ar draws darparwyr. Mae'r gwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu o hyd, ond mae'n dechrau rhoi mewnwelediad i'r bartneriaeth, er enghraifft i faint o ddysgwyr sy'n newydd i'r bartneriaeth bob blwyddyn a faint sy'n dychwelyd ar gyrsiau gwahanol.

Mae'r bartneriaeth wedi cydnabod yn ei hunanwerthusiad ei hun bod angen iddi wneud mwy i bontio cynnydd dysgwyr o ddarpariaeth ymgysylltu lefel mynediad yn y gymuned i ddarpariaeth medrau neu alwedigaethol bellach yn y coleg.

Dywed staff ym mhob un o'r prif bartneriaid cyflwyno eu bod yn cael cymorth da gan eu rheolwyr a'u bod yn cael dysgu proffesiynol defnyddiol ac amserol. Mae partneriaid yn cyfrannu'n deg at y cynnig dysgu proffesiynol sydd ar gael i staff ac yn defnyddio arbenigedd ei gilydd, ble gallant. Er enghraifft, gall staff yn Groundworks fynychu sesiynau dysgu proffesiynol yng Ngholeg Cambria sy'n cefnogi arfer sy'n ystyriol o drawma.

Mae dysgu proffesiynol yn cyd-fynd yn dda â'r gwelliannau a nodwyd yng nghynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac â blaenoriaethau sefydliadol sefydliadau partner eu hunain. Mae dysgu proffesiynol diweddar yn cynnwys: diogelu, Atal, ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, arfer sy'n ystyriol o drawma a chymorth cyntaf iechyd meddwl. Ceir ffocws addas ar gyfer staff sy'n newydd i addysgu, trwy hyfforddiant sy'n anelu at wella gallu tiwtoriaid i gynllunio, addysgu ac asesu oedolion sy'n ddysgwyr ac yn ddysgwyr ifanc.

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r bartneriaeth:

- Wella cynnydd y dysgwyr o ddarpariaeth gymunedol i ddarpariaeth alwedigaethol neu fedrau ar lefelau uwch
- Gwerthuso effaith darpariaeth y bartneriaeth ar gynnydd dysgwyr

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i staff
- yn adolygu data ar berfformiad cyhoeddedig y bartneriaeth

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â chadeirydd y bartneriaeth, swyddogion yr awdurdodau lleol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol, i werthuso effaith gwaith y bartneriaeth
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, a gwrando ar eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn arsylwi sampl eang o sesiynau
- yn arsylwi dysgwyr y tu allan i sesiynau, ac yn siarad â nhw
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r bartneriaeth
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y bartneriaeth ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r bartneriaeth, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/01/2026